Rhif: WG41484.

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Llawlyfr Cyfrifon Refeniw Tai

Llawlyfr Cyfrifon Refeniw Tai – canllawiau i gynghorau ar weithredu a rheoli Cyfrif Refeniw Tai

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd 2020
Camau sydd eu Hangen: Ymatebion erbyn 22 Chwefror 2021

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae tai cymdeithasol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae tai cyngor yn cynnig cartrefi fforddiadwy a diogel sydd wedi'u rheoli'n dda i deuluoedd ledled Cymru. Maent wrth wraidd ein cymunedau iach.<br><br>Mae cynghorau sy'n berchen ar eu stoc eu hunain ac sy'n dal i'w rheoli yn buddsoddi symiau sylweddol yn yr economi leol, nid yn unig drwy gynnal a chadw ac atgyweirio eu stoc bresennol, ond yn fwy diweddar drwy adeiladu cartrefi newydd. Mae newidiadau deddfwriaethol wedi creu'r cyfle i gynghorau sydd wedi cadw eu stoc dai ddechrau ar y gwaith o adeiladu tai cyngor newydd, ar raddfa a chyflymder nas gwelwyd ers cenhedlaeth.<br><br>Bydd angen i gynghorau sy'n rheoli eu stoc sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i reoli eu Cyfrif Refeniw Tai er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau tai statudol.<br><br>Lluniwyd y llawlyfr hwn i ddwyn ynghyd y gwahanol elfennau o ddeddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a chodau ymarfer sy'n ymwneud â gweithredu Cyfrif Refeniw Tai. Mae'n nodi canllawiau cyffredin, ac yn tynnu sylw at yr hyn y mae'n rhaid i gynghorau ei gredydu a'i ddebydu yn eu Cyfrif Refeniw Tai, a'r hyn na ddylid ei gredydu na'i ddebydu.<br><br>Datblygwyd y llawlyfr hwn fel adnodd, sy'n cadarnhau pa opsiynau sydd gan gynghorau o ran gweithredu eu Cyfrif Refeniw Tai ac er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.<br><br>Paratowyd y llawlyfr hwn ar y cyd â chynghorau a'u corff cynrychioliadol, CLILC. Rydym bellach yn croesawu eich barn am y llawlyfr drafft hwn. |
| **Sut i ymateb** | Ymatebwch drwy gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd drwy e-bost i'r manylion cyswllt a ddangosir isod. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill. |

**Manylion cyswllt** E-bost: HousingQualityStandards@gov.wales

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg yn:** : https://gov.wales/housing-revenue-account-manual

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau yn y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei dal ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Beth yw’r materion?

Yn 2015, gadawodd cynghorau yng Nghymru a oedd wedi cadw eu stoc dai system y Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ac yn 2019 cafwyd gwared ar y terfyn benthyca. Drwy gyflwyno hunangyllido, rhoddwyd yr adnoddau, cymhellion a’r cyfle i gynghorau ddarparu cartrefi newydd. Hefyd, drwy ddiddymu’r Hawl i Brynu yng Nghymru ym mis Ionawr 2019 rhoddwyd mwy o reolaeth i gynghorau dros eu hasedau tai.

Mae’r newidiadau deddfwriaethol hyn wedi creu cyfle i gynghorau sydd wedi cadw eu stociau tai ddechrau adeiladu tai cyngor newydd.

## Y sefyllfa bresennol

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn, bydd angen i gynghorau weithredu eu Cyfrif Refeniw Tai o fewn y fframwaith statudol.

Mae’r fframwaith statudol yn cynnwys llawer o elfennau o ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer ac, yn aml, mae’n dasg anodd deall yn llwyr beth y gellir neu na ellir ei wneud o fewn rheolau gweithredu Cyfrif Refeniw Tai.

## Pam rydym yn paratoi’r llawlyfr hwn?

Gan fod y sefyllfa bresennol yn ddryslyd ac am nad yw o gymorth i gynghorau, cafodd y llawlyfr hwn ei baratoi i ddwyn y gwahanol elfennau o ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer ynghyd mewn un man.

Mae’n nodi canllawiau cyffredin, ac yn tynnu sylw at yr hyn y mae’n rhaid i gynghorau ei gredydu a’i ddebydu yn eu Cyfrif Refeniw Tai, a’r hyn na ddylid ei gredydu na’i ddebydu.

Datblygwyd y llawlyfr hwn fel adnodd, sy’n cadarnhau pa opsiynau sydd gan gynghorau o ran gweithredu eu Cyfrif Refeniw Tai ac er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Bydd yr adborth o’r ymgynghoriad yn llywio fersiwn derfynol y llawlyfr sydd i’w gyhoeddi y flwyddyn nesaf.

**Cwestiynau am y Llawlyfr Cyfrifon Refeniw Tai**

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1:** Mae'r llawlyfr yn ceisio cael gwared ar ddyblygu diangen a dwyn y gwahanol ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer ynghyd mewn un llawlyfr. A yw'r llawlyfr yn gweithio fel dogfen resymegol ac yn cwmpasu'r holl agweddau perthnasol ar weithredu Cyfrif Refeniw Tai? Wrth ateb y cwestiwn hwn, os ydych yn credu nad yw'r ddogfen yn cwmpasu'r holl agweddau perthnasol ar weithredu Cyfrif Refeniw Tai, nodwch yr agwedd(au) a hepgorwyd yn eich barn chi.
Atebwch yma:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2:** A yw'r llawlyfr yn egluro'r hyn a ganiateir ac nas caniateir yn y Cyfrif Refeniw Tai? Wrth ateb y cwestiwn hwn, os oes meysydd lle nad yw'r llawlyfr yn rhoi eglurder, yn eich barn chi, nodwch beth yw'r rhain.
Atebwch yma:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3:** A oes unrhyw feysydd yn y Cyfrif Refeniw Tai nas cwmpesir gan y llawlyfr, y dylid eu cynnwys?
Atebwch yma:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4:** Ni chyfeirir at Gyfarwyddyd 1997 (Eithrio Prydlesau) yn y llawlyfr gan nad yw hyn yn gymwys yng Nghymru. Mae'r Cyfarwyddyd yn atal y Cyfrif Refeniw Tai rhag cyfrif am brydlesau byrdymor (a ddiffinnir fel rhai am 10 mlynedd neu lai) ar gyfer digartrefedd. A oes angen cyflwyno cyfarwyddyd tebyg yng Nghymru, yn eich barn chi? Os felly, nodwch pam.
Atebwch yma:

**Cwestiwn5:** Nodwch unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r llawlyfr.
Atebwch yma:

**Cwestiwn 6:** Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Llawlyfr Cyfrifon Cyfrif Refeniw Tai yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?
Atebwch yma:

**Cwestiwn 7:** Esboniwch hefyd sut y gallai'r Llawlyfr Cyfrifon Refeniw Tai gael ei lunio neu ei newid, yn eich barn chi, er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Atebwch yma:

**Cwestiwn 8:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny: Nodwch yma:

Noder bod ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: